Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant sylweddol

Ysgol Calon Cymru

Ffordd y Coleg
Llanfair-ym-Muallt
Powys
LD2 3BW

Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Calon Cymru wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion ar ôl yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

A1. Gwella ansawdd yr addysgu

Ers yr arolygiad craidd a'r ymweliad monitro diwethaf, mae ad-drefnu arweinyddiaeth wedi dwyn eglurder a chyfeiriad i strategaeth yr ysgol ar gyfer gwella addysgu a dysgu. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi darparu dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff sy'n canolbwyntio ar agweddau allweddol ar eu polisi addysgu a dysgu fel holi, modelu a defnyddio bwriadau dysgu. Erbyn hyn, mae llawer o athrawon wedi ymuno â'r rhaglen hyfforddi sydd wedi eu cynorthwyo i wneud gwelliannau yn eu haddysgu. Mae hyn hefyd wedi galluogi arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu, a pha agweddau sydd angen mwy o ddysgu proffesiynol. Mae'r ysgol wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid allanol ac ysgolion eraill i wella'u harfer. Mae arweinwyr wedi datblygu llawlyfrau arfer orau buddiol ar gyfer staff sy'n cynnwys enghreifftiau o waith disgyblion, gydag anodiadau defnyddiol i ddangos ac esbonio'u disgwyliadau.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn modelu geirfa bynciol yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon wedi sefydlu arferion defnyddiol ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Maent yn rhannu bwriadau dysgu yn llwyddiannus ac yn aml yn ailymweld â nhw i fesur cynnydd disgyblion. Maent yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol, gyda dilyniant rhesymegol, sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae disgwyliadau a her yn briodol ac mae cyflymdra'r dysgu yn addas.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn darparu cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, ac yn modelu gwaith yn effeithiol. Mae athrawon yn holi yn addas i wirio dealltwriaeth ac i ddisgyblion esbonio'u hymatebion. Maent yn darparu cymorth unigol defnyddiol ac adborth buddiol ar lafar tra'n mynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth. At ei gilydd, mae'r gwelliannau hyn mewn addysgu wedi cyfrannu tuag at lawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd disgwyliedig.

Mewn ychydig o wersi, lle mae addysgu yn hynod effeithiol, mae athrawon yn frwdfrydig ac yn cyflwyno'u gwersi ag asbri, sy'n ennyn ymgysylltiad y dosbarth cyfan. Mae'r athrawon hyn yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol ar dasgau sy'n gynyddol anodd. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn holi'n fedrus; yn procio meddwl disgyblion ac yn diwallu anghenion bron pob un ohonynt. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol.

Mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau nad ydynt yn herio disgyblion ddigon, mae cyflymdra'r dysgu yn rhy araf, ac nid yw tasgau'n diwallu anghenion disgyblion yn ddigon da. Yn aml, mae'r athrawon hyn yn cynnig cyfarwyddiadau hir, annelwig neu ddryslyd sy'n gadael disgyblion yn ansicr am dasgau a disgwyliadau. Yn ychwanegol, nid ydynt yn procio ymatebion disgyblion yn ddigon da neu'n nodi camdybiaethau ac anawsterau yn brydlon. Nid yw ychydig o athrawon yn mynd i'r afael ag ychydig bach o darfu yn effeithiol nac yn sicrhau bod disgyblion yn dal ati i ganolbwyntio, sy'n cyfyngu ar eu dysgu. Mewn gwersi cyfrwng Cymraeg, nid yw disgwyliadau athrawon o ddefnydd disgyblion o'r Gymraeg yn ddigon uchel. Mewn ychydig o achosion, nid yw adnoddau cyfrwng Cymraeg yn cynnig model iaith cywir ar gyfer disgyblion.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig ac adborth byw defnyddiol i helpu disgyblion i wella'u gwaith. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cael amser i ymateb i adborth ysgrifenedig, ac mae hyn yn cefnogi eu cynnydd. Fodd bynnag, caiff strategaeth yr ysgol i wella sillafu, atalnodi a gramadeg ei chymhwyso'n anghyson. Mewn lleiafrif o achosion, mae diffyg manwl gywirdeb mewn adborth neu mae'n canolbwyntio ar gyflwyniad yn hytrach na dysgu.

A2. Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol ar draws y cwricwlwm

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cynnal ffocws ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae strwythur a rolau arweinyddiaeth y maes hwn bellach yn glir, ac mae arweinwyr wedi sefydlu ymagwedd synhwyrol at ddatblygu medrau trwy 'bynciau hyrwyddo', gan weithio'n agos gyda phartneriaid allanol i gefnogi eu gwaith. Fodd bynnag, megis dechrau y mae cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae arweinwyr wedi gweithio'n briodol gyda staff i gryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Maent yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau personoledig yn addas i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ac yn defnyddio hyn i lywio agweddau ar ddarpariaeth llythrennedd.

Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan ddysgu proffesiynol ysgol gyfan ac wedi ei dargedu i helpu staff i ddeall sut i gynllunio cyfleoedd dilyniannol i ddisgyblion ddarllen ac ysgrifennu ar draws pynciau. O ganlyniad, mae cyfleoedd mwy addas erbyn hyn i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, ac at wahanol ddibenion. Fodd bynnag, mewn ychydig o bynciau perthnasol, mae cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig yn gyfyngedig ac nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau darllen uwch y tu allan i wersi Saesneg yn ddigon da. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i wneud gwallau sylfaenol yn eu hysgrifennu.

Ni ddarperir digon o gyfleoedd i fwyafrif y disgyblion sy'n dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg wella ansawdd a chywirdeb eu gwaith ysgrifenedig. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu meistrolaeth ar y Gymraeg.

Ers yr ymweliad blaenorol, mae arweinwyr wedi cryfhau agweddau ar eu hymagwedd at ddatblygu medrau rhifedd disgyblion. Maent yn defnyddio gwybodaeth asesu bersonoledig yn briodol i nodi meysydd i'w datblygu a llywio agweddau ar ddarpariaeth amser dosbarth a'r cwricwlwm mathemateg. Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer eu medrau rhifedd mewn ychydig o bynciau perthnasol y tu allan i fathemateg. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw tasgau'n cyfrannu'n ddigon effeithiol at ddysgu disgyblion sy'n benodol i bwnc. Mae dysgu proffesiynol ar gyfer staff, fel darparu ymagwedd gyffredin at waith graff, yn dechrau cynorthwyo athrawon i gynllunio ar gyfer rhifedd.

Mae cynnydd o ran cryfhau darpariaeth ar gyfer medrau digidol disgyblion yn gyfyngedig o hyd. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi buddsoddi'n briodol mewn gwelliannau hanfodol i seilwaith technoleg gwybodaeth yr ysgol, gan fynd i'r afael â rhwystr pwysig a nodwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran cynllunio'r cwricwlwm ac mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol i lefel briodol, o fewn gwersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac ar draws pynciau eraill, yn gyfyngedig. Mae'n ddyddiau cynnar hefyd o ran dysgu proffesiynol ac adnoddau ymarferol i gynorthwyo staff, ac nid ydynt wedi cael effaith ddigonol ar ddarpariaeth ystafell ddosbarth.

A3. Cryfhau prosesau cynllunio gwelliant

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau ei hymagwedd at hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Erbyn hyn, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gliriach a mwy systematig o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, a cheir cysylltiadau cryfach rhwng gwerthuso, blaenoriaethau gwella a dysgu proffesiynol. At ei gilydd, mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at welliannau gwirioneddol mewn addysgu a chynnydd nodedig diweddar mewn perfformiad mewn arholiadau. Nid yw ychydig o agweddau ar gynllunio gwelliant wedi eu datblygu'n ddigonol o hyd, ac nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso effaith eu gwaith ar ddysgu a chynnydd disgyblion yn ddigon craff.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ymagwedd systematig at hunanwerthuso ar draws yr ysgol. Mae rhaglen gynlluniedig o weithgareddau sicrhau ansawdd, ynghyd ag arweiniad a chymorth clir ar gyfer arweinwyr, yn hyrwyddo cysondeb ar draws y ddau gampws. Mae hyn yn helpu uwch arweinwyr i gynnal trosolwg effeithiol o waith gwella. Yn gyffredinol, mae'r strwythur arweinyddiaeth yn cefnogi cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau gampws.

Mae llawer o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn casglu ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso addysgu a dysgu, gan gynnwys trwy arsylwadau gwersi ar y cyd a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r arsylwadau hyn yn helpu arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu, ac yn darparu sylfaen briodol ar gyfer gosod targedau a hyfforddi staff unigol. Mae arweinwyr bugeiliol yn dechrau gwerthuso'u gwaith yn fwy systematig i nodi pa ymagweddau sy'n cael yr effaith fwyaf.

Caiff arweinwyr pwnc eu cynnwys yn gynyddol mewn dadansoddi data. Erbyn hyn, maent yn defnyddio ystod eang o wybodaeth am berfformiad, gyda ffocws cryfach ar ddeilliannau grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud defnydd effeithiol o ddata lefel eitem. Fodd bynnag, mae eu craffu ar waith disgyblion yn llai effeithiol. Mae'n canolbwyntio gormod ar wirio cydymffurfiaeth â pholisïau'r ysgol ac nid yw'n gwerthuso'r cynnydd a wna disgyblion yn ddigon da. Mae arweinwyr yn dechrau gwerthuso pa mor dda y mae disgyblion yn datblygu eu medrau, ond megis dechrau o hyd y mae hyn.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol ac yn mynd i'r afael â'r prif feysydd a nodwyd yn ystod yr arolygiad craidd a thrwy hunanwerthuso parhaus. Mae arweinwyr llawer o feysydd dysgu a phrofiad yn dechrau manteisio'n addas ar dystiolaeth o hunanwerthuso i lywio'u cynllunio. Fodd bynnag, mae ansawdd eu cynllunio yn amrywiol.

Mae arweinwyr yn alinio dysgu proffesiynol yn agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae adolygiadau datblygiad proffesiynol yn darparu amcanion priodol ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â'u meysydd cyfrifoldeb a meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella. Mae'r trefniadau hyn yn darparu cysylltiad clir rhwng canfyddiadau o hunanwerthuso, blaenoriaethau gwella a dysgu proffesiynol. Mae rhaglen dra ystyriol o hyfforddiant teilwredig wedi cefnogi gwelliannau mewn agweddau ar addysgu. Mae effaith hyn yn hynod amlwg o ran sut mae athrawon yn gosod bwriadau dysgu ac yn defnyddio holi a modelu.

A4. Mynd i'r afael â'r problemau iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

Ers yr arolygiad craidd a'r ymweliad monitro, mae'r ysgol, gyda chymorth yr awdurdod lleol, wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd. Mae ffensys o amgylch safleoedd Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt bellach yn gyflawn.

Mae trefniadau priodol ar waith i nodi a sicrhau diogelwch disgyblion chweched dosbarth, gan gynnwys laniardiau a threfniadau mewngofnodi electronig. Mae'r ganolfan hamdden ar gau i'r cyhoedd yn ystod oriau ysgol. Cryfhawyd trefniadau rheoli traffig yr ysgol. O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, mae safle'r ysgol bellach yn fwy diogel.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.